Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanbedr

**Llanbedr**

**Gwynedd**

**LL45 2NW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**Rhif yr ysgol: 6612194**

**Rhif yr arolygiad: 1900**

**gan**

**Mr Nicholas Jones**

**Arolygydd cofnodol o dan gontract i Estyn**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanbedr yn gwasanaethu'r pentref lleol a'r ardal gyfagos ym Meirionnydd, Gwynedd. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 47 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed, wedi eu trefnu mewn tri dosbarth; un i'r Cyfnod Sylfaen a dau yn yr adran Iau.

Daw 15% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae 9% o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. 'Does dim symudedd disgyblion arwyddocaol yn perthyn i'r ysgol.

Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd ac mae 6% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer llai na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae 21% o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn debyg i gyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers mis Medi 1997. Gyda'r pennaeth, mae dwy athrawes arall, un yn llawn amser a'r llall yn dysgu am bedwar diwrnod yr wythnos. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn 2005.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanbedr yw £3,625, sy'n cymharu ag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Gan yr ysgol y mae'r 41ain cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda am fod:

- cyflawniad a chynnydd amlwg i waith disgyblion dros gyfnod o amser;
- safonau lles disgyblion yn gadarn ac yn cyfrannu'n effeithiol i'w medrau cymdeithasol a bywyd;
- cryfderau cynllunio'r cwricwlwm yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella;
- cryfderau i'r addysgu ar draws yr ysgol, a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol;
- y gofal, cymorth ac arweiniad yn annog ymglymiad y disgyblion yn eu hysgol a'u cymuned ehangach;
- y defnydd effeithiol ar y cyfan o'r adeilad a'r adnoddau; a
- phartneriaethau buddiol gyda'r rhieni a'r gymuned leol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod yr arweinyddiaeth a rheolaeth sefydlog yn rhannu gweledigaeth sicr gyda phawb sydd ynghlwm â bywyd yr ysgol;
- bod ffocws effeithiol i gyfeiriad strategol yr ysgol wrth ystyried ansawdd a thargedau'r cynllun datblygu; a
- bod targedau'r cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r hunan arfarniad sydd felly, yn sicrhau systemau gwella ansawdd gweithredol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 ddatblygu a chydlynu'r cynllunio a darpariaeth y medrau allweddol ymhellach er mwyn herio pob disgybl yn briodol;

A2 parhau i ddatblygu prosesau cyson o asesu ar gyfer dysgu ac ymateb i waith disgyblion ar draws yr ysgol;

A3 sicrhau bod pob agwedd o'r hunan arfarnu yn arfarniadol; a

A4 datblygu gwell ddarpariaeth o adnoddau a chyfarpar i'r ardal tu allan o'r Cyfnod Sylfaen.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae sgiliau sylfaenol tua chwarter y disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig neu'n well. Mae bron pob un yn cyrraedd y deilliannau priodol am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Trwy archwilio gwaith disgyblion, cynnal trafodaethau gyda nhw ac ystyried eu mannau cychwyn, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd a chyflawniad sy'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran eu mannau cychwyn. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau penodol o ddisgyblion dros gyfnod o amser yn yr ysgol.

Wrth ystyried cyraeddiadau'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn y pynciau craidd ac wrth gyfuno'r pynciau, mae'n bwysig trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd y nifer bach o ddisgyblion sydd ym mhob carfan. Gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Wrth feincnodi yn erbyn ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim dros y bedair blynedd ddiwethaf yng nghyfnod allweddol 1, mae’r ysgol yn dueddol i fod yn y chwarter cyntaf ym mhob pwnc craidd ac wrth gyfuno’r pynciau.

Yng nghyfnod allweddol 2, ‘dydy’r ysgol ddim yn perfformio cystal ac yn tueddu i fod yn y chwarteri isaf yn y pynciau craidd ac wrth gyfuno’r pynciau.  Fodd bynnag, mae’r tueddiad yn gwella yn y blynyddoedd diweddaraf ac mae’r ysgol yn dda wrth ddadagregu’r data yn ôl gallu a chefndiroedd ieithyddol disgyblion unigol.

Yng nghyfnod allweddol 1, ‘dydy’r disgyblion ddim yn dueddol o gyrraedd lefelau sy’n uwch na’r lefelau disgwyliedig wrth gymharu â’r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae hyn hefyd yn wir yng nghyfnod allweddol 2, heblaw am Fathemateg a Gwyddoniaeth, sy’n perfformio’n uwch na’r teulu, awdurdod lleol a Chymru yn ddiweddar.  ‘Does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ers 2007.

Mae medrau cyfathrebu bron pob un disgybl yn dda ar lafar yn y Saesneg, ond ddim cystal yn y Gymraeg.  Maent yn gwrando’n astud, yn siarad yn glir ac yn darllen â phwrpas.  Mae uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu ymestynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn ac mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i’r hyn y maent yn eu darllen.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n ymestynnol â phwrpas mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.  Mae medrau cyfrifiadurol a thechnoleg bron pob un o’r disgyblion yn ymarferol dda ac maent yn medru adfer eu gwaith a dod o hyd i waith blaenorol yn rhwydd ar y cyfrifiaduron.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau ehangach defnyddiol.  Felly, mae eu hannibyniaeth fel dysgwyr a’r ffordd y maent yn gwerthuso’u gwaith ei hunain a’u cyfoedion yn datblygu’n effeithiol.  Mae’r prosesau hyn yn cael effaith bositif ar eu gwaith.

Wrth ystyried eu mannau cychwyn, mae llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella gyda chynnydd a medrau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr iaith Gymraeg.

**Lles:  Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni’n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol.  Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw’n iach trwy fwyta’n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae’r rhan fwyaf yn ddysgwyr bodlon sy’n mwynhau bywyd yr ysgol.  Mae bron pob un disgybl yn mwynhau eu gwersi ac yn manteisio ar gyfleoedd i leisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn eu dysgu.  Mae’r ymddygiad yn dda ar draws yr ysgol ac mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion.  Mae bron pob un disgybl yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd.

Mae'r gyfradd bresenoldeb, sef tua 96%, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae bron pob un disgybl yn brydlon. Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau pwrpasol am fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yma yn mwynhau eu cyfrifoldebau ac maent yn sylweddoli fod ganddynt lais cryf i ddylanwadu ar fywyd a gweithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae eu gwaith all-gyrsiol a'u hymroddiad i'r pentref a'r gymuned leol yn bositif iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cryfderau sy'n perthyn i gynllunio'r cwricwlwm yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella. Er bod strwythurau newydd i'r broses o gynllunio yn ddiweddar, 'dydy'r systemau newydd ddim wedi cael digon o amser i ddylanwadu'n llawn ar ofynion diweddaraf y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Yn gyffredinol, 'does dim digon o fanylder a dilyniant yn y cynllunio. Felly, 'dydy'r cwricwlwm a ddarperir ddim yn herio'r mwyafrif o ddisgyblion yn unol â'u gallu. 'Dydy'r cynllunio ddim yn gydlynus a ddim yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar eu medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Fodd bynnag, mae'r cynllunio diweddaraf ar draws yr ysgol yn dechrau dangos gwelliannau ac yn ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yn fwy effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn ddigonol gan fod y systemau newydd a weithredir yn ddiweddar heb gael yr amser priodol i ymsefydlu. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a sgiliau meddwl yn cael sylw pwrpasol. Maent yn agweddau amlwg ac effeithiol ym mywyd dyddiol yr ysgol a gwaith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gyson dda wrth iddynt drafod mentergarwch ac o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n effeithiol iawn ar hyd yr ysgol trwy wersi, cerddoriaeth, gweithgareddau creadigol a dathliadau priodol. Pan fo'r angen, defnyddir unedau iaith yr awdurdod lleol yn effeithiol i gefnogi'r ddarpariaeth o'r Gymraeg i hwyr ddyfodiaid i'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae llawer o gryfderau i'r addysgu a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn dda ac mae ganddynt gwybodaeth bynciol cyfoes sy'n elwa dysgu'r

disgyblion. Mae perthynas waith lwyddiannus rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth.

Mae cwestiynu addas yn ceisio ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cefnogol. Mae pob disgybl yn elwa o'r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith. Maent yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth synhwyrol a chyson ar lafar i bob disgybl ar gyfer gwella'u gwaith.

Mae cyflwyniadau a chyflymdra'r gwersi yn fuddiol ac mae cydbwysedd synhwyrol gydag athrawon rhwng arwain y dysgu a rhoi annibynniaeth i ddisgyblion. Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau ymddygiad yn effeithiol.

Er bod agweddau da i'w gweld ym marcio gwaith ar y cyfan, ceir enghreifftiau o sylwadau sydd ddim yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion i wella'u gwaith. Mae'r broses o osod meini prawf llwyddiant yn ddefnyddiol ar gyfer disgyblion unigol ac yn sefydlog drwy'r ysgol. Mae'r broses yn cael effaith adeiladol ar waith y disgyblion ac yn ffocysu'r disgyblion ar sut i ddatblygu'u gwaith ymhellach.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau ymsefydlu yng ngweithdrefnau'r ysgol, ond, 'dydy'r broses ddim yn gyson ar hyn o bryd. Mae'r cryfderau yn y systemau o dracio cynnydd plant, lefelu a chymedroli gwaith disgyblion dros amser yn gorbwyso meysydd i'w gwella. Yn ddiweddar, mae'r ysgol yn adnabod lefelau cyrhaeddiad y disgyblion yn gywir, yn enwedig y disgyblion sy'n perfformio yn uwch na'r lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig.

Mae adroddiadau i rieni yn dda a chyrraedd y gofynion statudol, gyda'r wybodaeth briodol yn ei le. Mae bron pob un rhiant a gofalwr yn teimlo'u bod yn cael y gwybodaeth briodol am gynnydd eu plant ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol sy'n cynnwys prosbectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion ag anghenion arbennig yn glir ac mae trefniadau pwrpasol yn eu lle i drosglwyddo'r disgyblion hŷn i addysg uwchradd. Caiff y ddarpariaeth drefnus ar gyfer lles a manteision byw'n iach eu hyrwyddo'n glir. Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a chydraddoldeb yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gadarn.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae gweithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith a'u hymddygiad.

Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd.  Mae'r gweithdrefnau effeithiol ar adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol.  Caiff pob disgybl eu cynnwys yn rheolaidd ym mywyd a gwaith dyddiol yr ysgol.  Mae hyn yn arfer dda ac yn agwedd bositif i ddisgyblion wrth iddynt gyd-weithio, ystyried a gwerthfawrogi eu cefndiroedd amrywiol.  Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad a'r tir yn effeithiol ac maent yn cael eu cynnal yn dda.  Mae'r ychwanegiad o ardaloedd plannu wedi hybu'r cyfleoedd i ddatblygu addysg tu allan a lles yn dda.  Mae'r staff cymorth yn gweithio dan arweiniad yn effeithiol gydag athrawon dosbarth i gyflwyno'n frwdfrydig gweithgareddau priodol ar draws yr ysgol.  Mae ansawdd yr adnoddau'n dda yn y dosbarthiadau a chânt eu defnyddio â phwrpas i gefnogi anghenion dysgu disgyblion.  Fodd bynnag, nid oes darpariaeth addas o gyfarpar ac adnoddau ymarferol ar gael yn ardal allanol y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Gwella'r ysgol trwy godi safonau disgyblion ymhellach yw prif ffocws y cynllunio strategol.  Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi'r meysydd priodol sydd angen eu gwella ac mae'r ysgol yn gweithredu arnynt yn effeithiol.  Mae'r pennaeth a gweddill y staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm er mwyn sicrhau gwelliannau.  Mae hyn yn gadarnhaol ac yn creu sylfaen gref wrth ddelio â chodi safonau disgyblion.

Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella.  Maent yn dîm sefydlog sy'n defnyddio cyfarfodydd cyson a diwrnodau hyfforddi cyfan yn bwrpasol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol er mwyn symud yr ysgol ymlaen yn strategol.  Mae cyfrifoldebau penodol gan y staff i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ac maent yn rhannu arferion yn ddefnyddiol i geisio gwella'u harferion proffesiynol a safonau'r disgyblion.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn sefydlog.  Mae'r ysgol yn cynnal rheoli perfformiad ac yn gweithredu'r gofyniad cyfreithiol i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol fel rhan o'r broses hon.

Mae'r ysgol yn targedu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau'r disgyblion a ddarpariaeth yr ysgol.  Mae'r ysgol wedi cyflawni'r Marc Safon Sgiliau Sylfaenol, y wobr arian o gynllun Ysgolion Eco ac un deilen o gynllun Ysgolion Iach.  Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn

effeithiol i bob disgybl hyd at saith oed, heblaw am ddiffyg adnoddau yn yr ardal tu allan.

Mae’r llywodraethwyr yn ymgymryd â’u rolau a’u cyfrifoldebau yn deyrngar a thrwyadl ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o’r ffordd y mae’r ysgol yn perfformio trwy wrando ar staff, ymweld â dosbarthiadau a chael adroddiadau tymhorol o’r pennaeth a staff yr ysgol. Mae’r cadeirydd a gweddill y corff llywodraethol yn mynychu hyfforddiant ac yn herio’r ysgol yn dda fel ffrindiau beirniadol. Maent yn trin data perfformiad yr ysgol yn effeithiol a deall y goblygiadau sydd arnynt wrth iddynt fynd i’r afael â chreu gwelliannau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r broses o gynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ar y cyfan ac yn arwain targedau’r cynllun datblygu. Mae’r broses o hunan arfarnu wedi’i sefydlu’n gadarn, gyda’r brif ffocws ar godi safonau disgyblion. Fodd bynnag, mae’r cynnwys yn ddisgrifiadol ar adegau yn hytrach nag arfarniadol. Felly, nid yw’r ffocws yn glir ar ambell agwedd sydd angen i’w ddatblygu ymhellach. Mae’r staff cyfan yn ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithlon ac mae’r llywodraethwyr yn rhan o’r broses drwy herio’r ysgol fel ffrindiau beirniadol.

Mae’r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaethau gydag ysgolion a phartneriaid eraill, sy’n cynnwys y gymuned ehangach, y gwasanaeth addysg a’r awdurdod lleol. Gwnaed cynnydd cyson wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad yn 2005, er bod cynllunio’r cwricwlwm ynglŷn â’r medrau allweddol yn parhau fel targed.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r partneriaethau gyda’r rhieni, y gymuned a sefydliadau crefyddol yn dda. Mae pob un o’r rhieni yn ymfalchïo ym mholisi ‘drws agored’ yr ysgol. Mae’r partneriaethau gydag ymwelwyr a gwirfoddolwyr yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o’u cymuned. Mae’r cysylltiadau gyda busnesau lleol yn datblygu ac mae’r ysgol yn parhau i wella’r ddarparieth yma.

Mae’r cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch meithrin lleol a’r ysgol yn effeithiol. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a’r ysgolion uwchradd, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi’n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ysgolion cyfagos ar brosiectau pwrpasol a defnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb i’r broses o gymedroli gwaith disgyblion a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae clwb brecwast a chlybiau ar ôl ysgol llwyddiannus yn cefnogi gwaith yr ysgol yn ddyddiol.

Mae ymweliadau â’r gymuned ac ymwelwyr o’r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu’n dda trwy astudiaethau a chysylltiadau cadarn gyda gwledydd eraill fel yr Almaen a Bolifia. Mae’r ysgol yn cefnogi elusennau cenedlaethol a rhyngwladol sy’n codi ymwybyddiaeth y plant o anghenion pobl eraill yn effeithiol iawn.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Caiff staffio, adnoddau a’r cyllid eu rheoli’n dda ar y cyfan.  Mae gan athrawon wybodaeth briodol i gyflwyno cwricwlwm priodol.  Caiff staff cymorth eu defnyddio’n dda ac maent yn gweithio’n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon i wella cyflawniad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth neu ar ddyletswyddau trwy gydol y dydd.

Mae gwariant wedi’i gysylltu’n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn dda i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb.  Mae cynlluniau penodol yn eu lle am unrhyw arian dros ben.  Mae’r cynllunio strategol yn sefydlog ac yn canolbwyntio ar gynnal safonau da ac addysgu safonol dros amser.  Felly, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd hyd at 21 o rieni neu ofalwyr i'r holiadur. Roedd pawb yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol; roedd pawb yn cytuno bod eu plant yn hoffi'r ysgol; a phawb yn cytuno y cafodd eu plant gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuasant yn yr ysgol. Mae bron pob un yn cytuno bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; a bron pob un yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd y plentyn. Mae bron pob un yn teimlo bod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau; bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol; a theimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da.

Mae pawb yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol; bod disgyblion yn ymddwyn yn dda; a bod yr addysgu'n dda. Hefyd, mae pawb yn teimlo bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd; eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; bod yr ysgol yn helpu'u plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Roedd pob un yn meddwl bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae'r rhan fwyaf yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Trwy ymateb i'r holiaduron, roedd yr holl ddisgyblion yn teimlo yn ddiogel yn yr ysgol; bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd; bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol; bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio; a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda ac roeddent yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae pawb yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser chwarae ac amser cinio a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Roedd bron pob un yn teimlo eu bod nhw'n gwneud yn dda yn yr ysgol a gyda phwy i siarad os roeddent yn poeni neu'n gofidio. Roedd rhan fwyaf yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os oedd y gwaith yn anodd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Nick Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Ken Davies | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Rhys Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Miss Meryl Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |